

Rydyn ni eisiau cynnig llety i chi

- Mae cynghorau lleol yn cynnig llety a chymorth i unrhyw un sy'n cysgu allan yng Nghymru.
- Mae hyn oherwydd Coronafeirws, salwch sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar bobl ledled y DU ac yn fyd-eang.
- Bydd symud i mewn i lety yn helpu i'ch amddiffyn chi a phobl eraill rhag y feirws.
- Bydd gennych le saff i aros, ynghyd â chymorth a mynediad at ofal iechyd.
- Rydyn ni'n gofyn i chi symud oddi ar y strydoedd ac i mewn i lety heddiw.




Beth yw Coronafeirws?

Mae Coronafeirws yn salwch sy'n gallu effeithio ar eich ysgyfaint a'ch system anadlu. Mae'r symptomau'n cynnwys:

- Tymheredd uchel – mae eich corff yn teimlo'n boeth
- Peswch newydd, parhaus – mae hyn yn golygu eich bod wedi dechrau pesychu'n ddi-stop

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd pobl yn gwella'n llwyr. Fodd bynnag, rhaid i chi fod yn arbennig o ofalus os:

- Ydych chi'n 70+
- Ydych chi'n disgwyl babi
- Ydych chi'n dioddef o gyflwr iechyd tymor-hir
- Oes gennych system imiwneidd wan



Beth os byddwch chi'n gwrthod y cynnig o lety?

Byddwn yn parhau i gynnig llety i chi dros yr ychydig ddyddiau nesaf, gan ei bod yn holl bwysig eich bod yn symud dan do. Os byddwch yn parhau i wrthod llety, mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â'r awdurdodau, sydd â'r pŵer i'ch gofodi i weithredu er mwyn eich amddiffyn chi a phobl eraill rhag y feirws.

Sut allwch chi gadw'n saff?

Os byddwch chi'n parhau i gysgu allan, gofynnwn i chi ddilyn y cyfarwyddiadau canlynol i'ch amddiffyn eich hun a phobl eraill rhag y feirws:

- Arhoswch fwy na 2 fetr i ffwrdd oddi wrth bobl eraill.
- Golchwch eich dwylo mewn toiledau cyhoeddus neu mewn cyfleusterau eraill.
- Defnyddiwch ddiheintydd dwylo i gadw'ch dwylo'n lân.
- Peidiwch â rhannu sigarêts, pibell/cetyn na diodydd gyda phobl eraill.
- Peidiwch â rhannu pabell na chysgu nesaf at bobl eraill.
- Gorchuddiwch eich ceg a'ch trwyn gyda hances bapur neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch chi'n pesychu neu'n tisian.
- Rhewch yr hancesi papur yn syth yn y bin a golchwch eich dwylo.
- Peidiwch â chyffwrdd eich llygaid, trwyn na cheg os nad yw eich dwylo'n lân.

